CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed EBRILL 2025.

NEUADD GOFFA BODWROG.

PRESENNOL:
Cyng. W R Parry (Cadeirydd) Cyng. J Evans, R G Parry, D T Roberts, R R Roberts ar Clerc D Owen.

YMDDIHEURIADAU: Cyng. Ms N Dafydd, G Jones, J E Lewis, Mrs L Roberts.

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB. Neb.

CAEL COFNODION 18ain MAWRTH 2025 YN RHAI CYWIR:
Cynnig Cyng. R G Parry eilio Cyng. D T Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.

Cafnau Blodau gwaelod Bodffordd (Groeslon Llangwyllog) a Bronheulog Bodffordd. Angen rhywun a diddordeb i edrych ar ol. (chwynnu fwyaf) Efallai fod rhywun yn y pentref. Y Cyngor i rhoi nodyn yn yr Hysbysford.

Mynwent Gymunedol Bodffordd.
Pan mae i fynwent yn cael ei thorri, mae y glaswellt yn cael ei chwythu oddi ar y Cerrig Beddi, ond nid oes sicrwydd fod y cwbl yn mynd i ffwrdd oherwydd fod peth yn glynu.
Y beddau a`r cerrig beddau i gael ei cadw mewn trefn gan y perchenogion a byddant yn gyfrifol am unrhyw niwed neu cwympiad y garreg fedd.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Dim.

PENDERFYNIADAU. (CYNLLUNIO)

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Arddangosfa ymlaen yn Oriel Mon hyd 3ydd Awst 2025.
   Egni, Natur, Dirgryniad. Leonard McComb RA (1930 - 2018) Gwaith yr artist o Brydain ers 40 mlynedd. Gwybodaeth 01248 724444. www.orielmon.orgNicolaGibson@ynysmon.llyw.cymru
   Y Cyngor yn derbyn a gobeithio am gefnogaeth dda.

4. Swyddog Polisi - Rhian W Jones.
   Taith Cymunedau Dementia gyfeillgar Gogledd Cymru. Bwriad Cynorthwyo i Ddatblygu Cymunedau Tostiriol. Cynlluniau sydd yn cael ei cyflwyno:-
   https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gogledd-cymru/
   Dysgu mwy am gynllun Cymunedau Dementia.
   https://wwwcydweithredagogleddcymru.cymru/dementia/
   Newyddion Cysylltiedig:-
   https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/newyddion/newyddion/dtatws-dementia-gyfeillgar-i-ynysmon
   Y Cyngor yn derbyn y wybodaeth ac yn dymuno y gorau.

5. Maethu Cymru Mon - Cynorthwydd Recriwtio - Sion Aled Griffiths.
   Hysbysebu a Marchnata Baneri Maethu Mon.

Lledaenu ymwybyddiaeth am Maethu ar yr Ynys.
Gwybodaeth. 01248 752772.
Derbyn y wybodaeth.

GOHEBIAETH (ARALL)

6. Un Llais Cymru.
Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon 24ain Ebrill 2025. Y Court, Glanhwfa Road, Llangefni. 7 o`r gloch.
Gobeithio am fwy o bresenoldeb, mae y figyrau wedi disgyn.

RHODDION.

7. Cangen yr Urdd Bodffordd. Trwy gynnig Cyng. R G Parry eilio Cyng. D T Roberts pasiwyd i gyfrannu £250 a dymuno llwyddiant mawr iddynt yn Margam, ac i`r dyfodol.

PLWYFOL.

8. Llwybr Ty Croes Llynfaes.
Mae dipyn o bryderon am y llwybr wrth Llwyn Onn, Llynfaes.
Gofyn i Swyddog Llwybrau (Cyngor Sir) cael golwg arno. Cynnig Cyng. D T Roberts, eilio Cyng. R R Roberts.

9. Rhoddwydd Mantolen Ariannol 2024 / 2025. i`r Cynghorwyr cyn i`r Awdit fynd i`r Awdit Mewnol. Gyda Mr. A Foulkes yn gwneud y gwaith eto eleni.

MATERION ARIANNOL.

10. Cyfrif Rhedegol. £22,497.23.

Mynwent Gymunedol Bodffordd £9,910.00 rhan o`r uchod))

TALIADAU:

11. Clerc £500.55. CSYM. (Les Maes Chwarae) £25.00. Sign Factory (Arwydd Glanrafon) £276.00. Cangen Urdd Bodffordd £250.00.

Derbyn cydbwysedd cyfrif, a talu y dyledion i gyd. Cynnig Cyng. R R Roberts, eilio Cyng. J Evans.
D Owen (Clerc)